PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 156 | Rhif 38 | Medi 21, 2023 | 50c.




## Drysau Agored yn Tabernacl Porthcawl

Dydd Sadwrn, Medi 2, fe gynhaliwyd diwrnod Drws Agored CADW yn y Tabernacl, Porthcawl. Yn wahanol iawn i'r Eglwysi Anglicanaidd, prin iawn mae capeli'r ymneilltuwyr yn agor eu drysau tu hwnt i'r Sul. Mae nifer yn credu mai cyfle i ddangos yr adeilad a'r bensaernïaeth yn unig yw'r diwrnod yma gan CADW, ac er bod diddordeb yn yr adeiladau gan rai, i ni roedd y prif ffocws ar ein tystiolaeth fel Eglwys Gymraeg yng nghanol Porthcawl. Roedd yn gyfle i ni ddangos ein lletygarwch, ein gweledigaeth, a'n rôl o fewn y gymuned leol. Roedd yn gyfle i ni ddangos holl weithgarwch yr eglwys dros y 100 mlynedd diwethaf a dathlu cyfraniad y saint ers ei chychwyniad. Mae 8 gweinidog i gyd wedi gwasanaethu'r Tabernacl, gyda'r Parchg W. Rhys Nicholas yn weinidog yno rhwng 1965–83. Yn rhan o'r diwrnod roedd helfa drysor o amgylch y capel, ffilm fer, paned a chacen, arddangosfa a sawl gweithgaredd arall.

Hyfrydwch y diwrnod oedd nad oeddech yn gwybod pwy ddeuai i mewn trwy'r drysau. Gallent fod yn lleol neu o bell, yn Gymry Cymraeg neu'n ddi-Gymraeg, rhywun sydd yn arddel ffydd neu ddim. Mae'r drysau agored nid yn unig yn agor drws yr adeilad, ond yn fodd i agor drysau deialog gydag unigolion a'r gymuned, gan ddweud mai'n braint yw bod yn dystiolaeth i'r Arglwydd Iesu Grist ym Mhorthcawl neu ble bynnag arall.





## Ffenestri lliw

Llawenydd i aelodau Saron Creunant oedd ennill grant treftadaeth gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot er mwyn cynnal prosiect cymunedol gwydr lliw i ddylunio a chreu ffenestr lliw i'r capel a fydd yn dathlu 120 o flynyddoedd yr achos. Mi fydd artist gwydr lliw o Abertawe, sef Ms Siân Stanford, yn cydweithio gydag aelodau'r capel a'r holl gymuned i gyd-gynllunio a chreu'r darn o gelf cofiadwy. Y mae'r holl aelodau yn edrych ymlaen yn fawr at ddechrau'r daith!

Braf hefyd oedd dathlu'r newyddion da am ein grant cymunedol drwy gynnal bore o ganu cymunedol yng nghartref Llwynnon yn y pentref. Dyma'r ail dro i aelodau Saron i gynnal sesiwn o ganu




gyda'r henoed yn yr ardal. Mwynhaodd yr holl aelodau wrth gyd-ganu caneuon adnabyddus ac emynau gyda thrigolion Llwynnon.

Y mae Duw yn ein galw ni i gwrdd ag anghenion ein cymunedau, ac i fynd allan i gwrdd ag aelodau o'n cymunedau yn union fel gwnaeth ein Gwaredwr, Iesu Grist.

**W. Rhys Locke**

# Mentro o'r newydd

Pa mor barod ydach chi i ddysgu rhywbeth newydd? Mae llawer iawn yn dweud eu bod yn rhy hen i ddysgu rhywbeth newydd, boed yn iaith neu grefft neu feistroli rhyw declyn cyfrifiadurol. Ar y cyfan, rydym yn araf iawn i newid ein ffyrdd am ein bod yn ofni'r newydd a'r newid. Ar adegau, mae rhai ohonom yn ceisio dysgu ein hunain yn hytrach na chydnabod ein hangen a gofyn am help un sy'n gwybod. Mae agwedd fel hyn yn arwain at golli allan ar brofiadau newydd fyddai'n cyfoethogi ac yn hwyluso bywyd. Gall hyn fod yn wir gyda'n bywyd ysbrydol hefyd. Gallwn golli cyfle i brofi bendithion adnabod y Gwaredwr a phrofi heddwch a dedwyddwch y bywyd Cristnogol trwy wrthod cymryd ein dysgu.

Mae plant, ar y llaw arall, yn sugno gwybodaeth newydd yn rhwydd ac yn gallu addasu yn llawer haws. Mae plentyn yn fwy parod i ofyn am help pan fo angen. Mae Iesu Grist yn ein gwahodd yn y Gair i gymryd agwedd plentyn. 'Galwodd (Iesu) blentyn bach ato, a'i osod yn y canol o'u blaenau, ac yna dwedodd: "Credwch chi fi, os na newidiwch chi i fod fel plant bach, fyddwch chi byth yn un o'r rhai mae'r Un nefol yn teyrnasu yn eu bywydau."' (Mathew 18:2–3) Mae'n ein galw ato i gael ein dysgu a'n trawsnewid ganddo fel ein bod yn darganfod ffordd sy'n rhoi tangnefedd a gorffwys i ni. 'Dewch ata i, bawb sy'n cael eich llethu gan feichiau trwm, a rhof i orffwys i chi.' (Mathew 11:28) Galw arnom i adael iddo ef ein hyfforddi a'n newid a wna'r Arglwydd.

Gwelwn lawer eisiau bod yn heini ond eto ddim yn barod i ildio i ddisgyblaeth hyfforddwr ymarfer corff. Does dim gorffwysfa ysbrydol i ni heb i ni ildio i gael ein dysgu gan Iesu Grist am ffordd ffydd. Does dim gorffwysfa heb wrando ac ymateb iddo. Nid beichio bywyd a wna'r Arglwydd Iesu ond gwneud bywyd yn haws ac yn llawnach. 'Dewch gyda mi o dan fy iau, er mwyn i chi ddysgu gen i. Dw i'n addfwyn ac yn ostyngedig, a chewch chi orffwys. Mae fy iau i yn gyfforddus a dw i ddim yn gosod beichiau trwm ar bobl.' (Mathew 11:29–30) Dyma dymor newydd a chyfle i fentro o'r newydd i ddyfnhau ein hadnabyddiaeth o Iesu Grist a phrofi mwy o fendithion ei gwmni.

**Robert O. Roberts**
(allan o *Llais Bro Aled* Medi 2023)

# Pererindod i'r Fro, Ebeneser Caerdydd

Cafwyd pererindod benigamp wrth i lond bws o aelodau Ebeneser Caerdydd fynd ar dramp i Fro Morgannwg. Yn ystod y dydd fe gafwyd llawer o hwyl, yn cymdeithasu, cyd-fwyta a dysgu.

Y gyrchfan gyntaf yr aethpwyd iddi oedd Bethesda'r Fro. Gwaetha'r modd aeth y gyrrwr bws ar goll ac ni welsom y capel enwog. Er hynny, fe rannodd Gwilym Dafydd hanes 3 o emynwyr y fro gyda ni. Yr enwocaf, o bosib, oedd Thomas William, Bethesda'r Fro a ysgrifennodd emynau fel 'O'th flaen o Dduw rwy'n dyfod', 'Y gŵr wrth ffynnon Jacob' ac 'Adenydd colomen pe cawn'.



### Llanilltud Fawr

Yna, fe aethon ni draw i dref hynod Llanilltud Fawr gan dreulio ychydig amser yn yr eglwys drawiadol. Yno clywsom am wreiddiau cyn-hanesyddol y cwmwd hwnnw, ei gysylltiadau gyda'r seintiau Celtaidd yn cynnwys Illtud. Sefydlodd ef fynachlog yno oedd yn enwog trwy Ewrop am ei safonau addysgol aruchel. Bu Iolo Morganwg yn byw yn y cyffiniau ac ef oedd y gyfrifol am ddarganfod Colofn Samson sy'n cael ei harddangos yn yr eglwys.

Cyn ymadael â'r dref cawsom bryd danteithiol o fwyd ym mwyty'r Cwtch.



### Y Bontfaen

Draw wedyn i'r Ardd Ffisig yn y Bontfaen lle y cafwyd hanes sefydlu'r ardd gan Carys Whelan. Y mae'r holl blanhigion sydd yno yn rhai a ddefnyddiwyd dros y canrifoedd i drin salwch ac afiechydon. Trawiadol yw bod pob planhigyn wedi eu labelu mewn tair iaith, Lladin, Saesneg a Chymraeg.

### Porthcawl

I orffen y bererindod fe aethom draw i gapel y Tabernacl, Porthcawl, i gynnal oedfa o fawl. Cawsom groeso tywysogaidd gan rai o'r aelodau a'r Parchg Dylan Rhys. Siaradodd yr ysgrifennydd Tom Price am y diweddar W. Rhys Nicholas gan roi cefndir yr emyn, 'Tydi a wnaeth y wyrth'. Ac wedi inni ganu'r emyn i gyfeiliant Helen Thomas ar yr organ yr oedd yr haleliwia yn ein heneidiau. Diolch yn fawr iawn i aelodau'r Tabernacl am baratoi paned a chacen inni yn y neuadd.

Diolch i bawb fu wrthi'n helpu gyda'r trefniadau yn enwedig Alison Jones a Petra Bennett.



Yr Adran Gydenwadol

MEDI 21 2023 RHIF 134

# Llifogydd Libya – ein hymateb fel eglwysi

cymorth cristnogol

Yn rhifyn 13 Medi o *Cenn@d* roeddem yn tynnu sylw ein darllenwyr at yr angen i gefnogi pobl Moroco yn dilyn y daeargryn yn y wlad. O fewn dyddiau, gwelwyd trychineb enfawr arall, y tro hwn yn Libya ar gyfandir Affrica, yn dilyn llifogydd dychrynllyd. Unwaith eto, mae'r Groes Goch wedi ymateb ar fyrder ac ar waith yn y rhanbarth, ac unwaith eto mae modd cyfrannu yn uniongyrchol i'w gwaith drwy glicio ar eu dolen apêl: Morocco Earthquake Appeal

Erbyn hyn hefyd mae Cymorth Cristnogol wedi lansio'u apêl argyfwng brys hwythau ar gyfer Libya, gan gydweithio â'i phartneriaid, Dan Church Aid, sy'n cefnogi gwaith y Cilgant Coch yn y wlad. Mae miloedd o bobl wedi marw a miloedd yn dal ar goll yn dilyn y llifogydd ddinistriol a 'sgubodd ymaith gymdogaethau cyfan yn ninas porthladd Derna. Mewn ymgais i ddarparu cymorth hanfodol, mae'r elusen ryngwladol Cymorth Cristnogol wedi lansio apêl arbennig. Yn drychinebus, fe lwyddodd Storm Daniel i chwalu dau argae, gan anfon llifeiriant nerthol o ddŵr a gweddillion drwy'r ddinas, gan ddymchwel cartrefi ac adeiladau eraill a datgysylltu cyflenwadau ynni a dŵr. Mae'r rheini sydd wedi goroesi wedi colli popeth. Mae eu cartrefi wedi'u gorchuddio â mwd a malurion, a'r ofn ydy fod llawer o bobl hefyd wedi'u claddu yno. Mae pobl bellach yn brin o'r hanfodion megis mynediad at ddŵr glân a chyfleusterau glanweithdra digonol.

Mae Cymorth Cristnogol yn gweithio gyda Dan Church Aid (DCA), ei phartner yn Act Alliance, sydd â phresenoldeb yn Libya ers 2011. Maen nhw'n darparu cymorth meddygol i'r timau achub yn Derna ac yn helpu i sefydlu llochesi i gynnal teuluoedd digartref yn Benghazi. Mae DCA hefyd yn dosbarthu eitemau sylfaenol fel blancedi a gwelyau, eitemau glanweithdra a hylendid gan gynnwys hylif sebon, siampŵ, a deunyddiau misglwyf. Pan fydd amgylchiadau'n caniatáu, fe fydd DCA hefyd yn darparu cymorth ariannol.

Dywed Michael Mosselmans, Pennaeth Adran Ddyngarol Cymorth Cristnogol:

"Mae'r golygfeydd yn Libya yn dorcalonnus. Gyda'r isadeiladwaith, gan gynnwys ysbytai a chartrefi, wedi'u golchi ymaith gan y llifogydd, fe welwn bobl heb yr hanfodion, megis mynediad at ddŵr glân a glanweithdra digonol i atal y peryg o heintiau. Mae Cymorth Cristnogol, felly, wedi lansio apêl i atgyfnerthu'r cymorth y gallwn ei roi trwy ein partner, Dan Church Aid, i bobl sydd wedi colli'u cartrefi, eu bywoliaeth a'u hanwyliaid.

"Bydd pob gweddi, pob rhodd, pob gweithred yn dod â gobaith i'r bobl a effeithiwyd gan y drychineb. Bydd rhodd o £25 yn talu am becyn ymateb dyngarol sy'n cynnwys arian ac eitemau sydd heb fod yn fwyd, megis blancedi a gwelyau, eitemau glanweithdra a hylendid megis hylif sebon, siampŵ, brwshys dannedd, deunyddiau misglwyf, weips a chewynnau i fabanod, a dŵr potel.

"Mae partner Cynghrair ACT Cymorth Cristnogol, Dan Church Aid o Ddenmarc, wedi sefydlu presenoldeb yn Libya ers 2011, ac mae bellach yn helpu gyda'r ymateb brys. Mae staff DCA yn nwyrain y wlad yn cynorthwyo Cilgant Coch Libya yn Derna ei hun, yn benodol gyda chymorth meddygol i'r timau chwilio ac achub. Mae staff logisteg a staff maes DCA yn caffael eitemau sylfaenol ar gyfer y llochesi er mwyn helpu teuluoedd sy'n cyrraedd yno'n waglaw.



Llun: AFP via Getty Images

Pobl yn archwilio ardal wedi'i difrodi gan lifogydd dirybudd yn Derna, dwyrain Libya, 11 Medi 2023

Bydd timau DCA yn cynorthwyo i ddosbarthu'r eitemau hyn i bob lloches fel rhan o'n hymateb i'r cam cyntaf. Ochr yn ochr â'r gweithgarwch hwn, mae DCA wrthi'n brysur yn prynu mwy o offer a chyfarpar i'r timau chwilio brys yn Derna ac mewn lleoliadau eraill. Mae prinder dybryd o eitemau sylfaenol megis fflachlampau llaw, hetiau caled/helmedau, menig gwaith, rhaffau a systemau pwli, ynghyd ag offer i symud y llanast.

"Trwy ymuno â ni, medrwch chithau helpu pobl sydd mewn angen i ailadeiladu eu bywydau."

I gefnogi'r apêl, ewch i wefan: Cymorth Cristnogol.

### Gweddi dros Libya

Arglwydd Iesu, rwyt ti'n deall beth yw galar, ac yn wylo gyda'r rhai sy'n dioddef.
Rwyt ti'n gallu uniaethu gyda'r torcalonnus, ac yn cysuro'r rhai sy'n galaru.
Dros y dyddiau diwethaf mae llifogydd dinistriol wedi arwain at golledion bywyd y tu hwnt i fesur i bobl Libya.

Gyda chymaint o filoedd wedi'u heffeithio,
helpa ni i weld y tu hwnt i'r ffigyrau,
ac i ddeall anghenion cymunedau go iawn a theuluoedd
y mae eu bywydau wed'i heffeithio gan y dinistr.

Gweddïwn y byddi'n cryfhau'r rhai sy'n dal i frwydro i oroesi,
ac yn cynnal y gweithwyr sy'n ceisio'u hachub.
Gweddïwn y byddi'n cysuro'r rhai sy'n ofni'r gwaethaf
wrth iddyn nhw aros am newyddion.
Gweddïwn y byddi gyda phawb sydd mewn trawma
ac sy'n galaru ar hyn o bryd.

Dangos i ni, Arglwydd, sut i'th wasanaethu di
drwy ddangos cefnogaeth ymarferol i'n cymdogion yn Libya.
Pan fydd maint y drychineb yn codi braw arnom,
ysbrydola ni â'th Ysbryd er mwyn inni wybod
sut i wneud gwahaniaeth.
Diolchwn am waith yr holl asiantaethau cymorth ar lawr gwlad,
ac i bawb sy'n rhoi'r hyn a allant i helpu i achub bywydau
a chefnogi goroeswyr.
Arglwydd, bydd yn agos at bobl Libya.
Gweddïwn hyn yn enw dy fab annwyl Iesu Grist. Amen.

# Haf yng Ngholeg y Bala

## Profiadau un ferch ifanc fu ar rai o gyrsiau'r haf hwn yng Nghanolfan Plant ac Ieuenctid Coleg y Bala

Yn ystod yr haf, fe fues i'n ffodus iawn i gael y cyfle i dreulio tair wythnos gyfan yng Ngholeg y Bala. Roeddwn yn arweinydd am y tro cyntaf ar y CWRS Ieuenctid, sef wythnos o weithgareddau ynghyd ag addoliad a sesiynau dan arweiniad gwahanol siaradwyr i bobl ifanc blynyddoedd uwchradd 7–10. Roedd y cwrs hwn yn llawn egni, cyffro a llawenydd wrth i'r bobl ifanc a'r arweinwyr fwynhau dod i nabod ei gilydd a threulio amser ym mhresenoldeb Duw. Cafwyd amser gweddi ac addoliad bendithiol bob nos, a bu'n gyfle arbennig i nifer o'r ieuenctid i roi eu bywydau i'r Arglwydd. Yn bersonol, roedd gweld cymaint o bobl ifanc yn dewis rhoi eu bywydau i'r Arglwydd yn brofiad anhygoel a bythgofiadwy i mi. Roedd gweld Duw ar waith fel hyn yn rhyfeddol.

Fe fues i hefyd yn cydarwain Anhrefn Awst, sef cwrs i blant 8–11 oed. Roedd yr wythnos hon yn cynnwys gweithgareddau megis gemau dŵr, chwaraeon, a thrip i'r Gelli Gyffwrdd. Roedd yr wythnos yn seiliedig ar stori am fywyd Dafydd. Roedd hi'n braf gweld cymaint o blant ifanc ledled Cymru yn cymryd rhan yn yr holl weithgareddau hwyliog ac yn gwrando'n astud yn ystod y sesiynau o dan arweiniad Nia Williams.

Tuag at ddiwedd yr haf, mynychais Souled Out, sef cynhadledd i bobl ifanc 15+, myfyrwyr, ac oedolion ifanc. Fe wnes i wirioneddol fwynhau yr wythnos fel aelod o'r ieuenctid. Roedd hi'n wythnos hwyliog iawn a dysgais gymaint am Dduw, ac fel canlyniad i hyn teimlaf fy mod wedi tyfu yn fy ffydd ac agosáu at Dduw. Cafwyd amrywiaeth eang o seminarau a fu'n addas i bawb. Uchafbwynt yr wythnos i mi oedd y sesiwn addoliad ychwanegol 'dyfnach'. Roedd cymaint o'r ieuenctid yn ymateb i alwad Duw ac yn rhoi eu bywydau yn llwyr i'r Arglwydd. Teimlais gymaint o gyffro wrth weld Duw ar waith o flaen fy llygaid fy hun. Roedd yn brofiad hollol syfrdanol i mi, a chefais fy llenwi gyda gymaint o anogaeth ac ysbrydoliaeth i barhau i dyfu yn fy ffydd. Roedd digonedd o amser hefyd i gymdeithasu a threulio amser gyda ffrindiau newydd wrth chwarae pêl-droed, cymryd rhan mewn gweithgareddau crefft, cwrs rhwystrau, a dawnsio yn y disgo.

Ar y cyfan, dwi wedi cael haf anhygoel o fuddiol ac ysbrydol, a dwi'n ddiolchgar o gael bod yn rhan o deulu Coleg y Bala.

*Alaw Elisa (16 oed)*
*Crymych, Sir Benfro*



Cwrs Ieuenctid



Anhrefn Awst



Souled Out

# Sul Digartrefedd

Y darlun ddaw i'r meddwl wrth sôn am ddigartrefedd yw rhywun yn cysgu ar y stryd, ac ysywaeth mae hynny yn digwydd ar draws Cymru. Ond mae bod heb gartref yn fwy na bod heb do uwch eich pen. Mae Housing Justice Cymru, sy'n un o aelod fudiadau Cytûn, yn gweithio gyda gwirfoddolwyr o fewn yr eglwysi:

- i letya ffoaduriaid mewn cartrefi croesawus;
- i helpu'r sawl sy'n symud ymlaen o hosteli i'w llety cyntaf i droi'r gofod yn gartref go iawn;
- ac i helpu'r sawl sy'n wynebu digartrefedd i gadw neu ddod o hyd i gartref cynaliadwy.

Maent hefyd yn cydweithio gyda chymdeithasau tai ac eglwysi o bob enwad sydd â thir ar gael i godi tai neu fflatiau ar rent i ddarparu cartrefi i bobl leol. Gellir darllen mwy ar eu gwefan ddwyieithog: https://housingjustice.org.uk/cymru

Mae Sul Digartrefedd – eleni ar 8 Hydref, neu unrhyw Sul arall sy'n gyfleus i chi – yn cynnig cyfle:

- i weddïo dros bobl sydd heb gartref go iawn a'r mudiadau hynny sy'n eu cefnogi;
- i hybu aelodau o fewn eich cynulleidfa i wirfoddoli;
- ac, os dymunwch, i godi arian ar gyfer gwaith Housing Justice Cymru yn y flwyddyn sydd i ddod.

*Gethin Rhys*
*Swyddog Polisi Cytûn*

### Gweddi Sul Digartrefedd, 8 Hydref 2023

Dduw trugarog,
fe ddywedodd dy fab Iesu Grist
"Y mae gan llwynogod ffeuau, a chan adar yr awyr nythod, ond gan Fab y Dyn nid oes lle i roi ei ben i lawr." [Mathew 8:20, BCND]

Fe wyddost felly sut beth yw byw fel crwydryn heb wybod ble fyddi yn cysgu heno,
ac rwyt yn cyd-deithio â phawb sydd yn byw heb loches parhaol,
yn cysgodi ar drugaredd ffrindiau, mewn llety dros dro, neu ar y strydoedd.
Yn dy drugaredd, felly, bendithia waith Housing Justice Cymru
a phawb sy'n gwirfoddoli i letya ffoadur,
i gefnogi pobl yn eu cartref sefydlog cyntaf trwy gynllun Citadel,
i fwydo'r newynog neu ofalu am y claf.

Nertha eglwysi Cymru i ymateb i anghenion ein cymdogion
a hynny heb farnu nac edliw,
ond gan efelychu dy awydd di i ddeall, i fendithio ac i nerthu.
A bydd gyda staff cyflogedig ac ymddiriedolwyr Housing Justice wrth iddynt lywio'r gwaith
a chyda phawb yn Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sy'n gweithio yn y maes hwn.
Yn enw Iesu y gofynnwn hyn, Amen.




# Gair Duw ar Waith

**Maes Llafur ar gyfer grwpiau trafod oedolion neu astudiaeth Feiblaidd a dosbarthiadau ysgolion Sul, Hydref 2023 hyd Gorffennaf 2024**

Wedi blwyddyn o astudio hanes Abraham, mae'r deunydd am eleni yn cymryd trywydd cwbl wahanol, gan gyflwyno 44 o fyfyrdodau / astudiaethau sy'n canolbwyntio ar sut y gallwn roi ein ffydd ar waith yn ymarferol yn ein bywydau bob dydd. Rhoddir sylw i fudiadau cenhadol a dyngarol, a sut gallwn ni rymuso ein tystiolaeth a'n gwasanaeth o fewn ein cymunedau a'r byd. Bydd y gwersi'n ymwneud â ffydd ymarferol, gan drafod cenadaethau a gwasanaethu fel pobl Dduw. Paratowyd y myfyrdodau hyn gan y Parch. Denzil Ieuan John, Caerffili, a diolchwn iddo am y gyfrol werthfawr, a gyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau'r Gair, pris £7.99.

Meddai Denzil I. John:

'Ers degawdau bellach gwelodd pob traddodiad Cristnogol arwyddion o drai ar grefydd yng Nghymru, a bu nifer o eglwysi yn chwilio am ddeunydd addas i gynnal gweithgareddau a fyddai ar y naill




law yn diwallu'r anghenion ysbrydol a hefyd yn cynnig syniadau i estyn allan i'r gymuned ehangach. Her i bob eglwys yw ceisio newid y drefn a chwilio am ffyrdd o addasu ein gweithgarwch fel bod addoliad, cymdeithas a chenhadaeth yr eglwys leol yn edrych allan i'r byd. Mae angen ceisio ffyrdd gwahanol a deniadol o gyfathrebu â'r rhai sydd wedi peidio mynychu addoliad eglwys neu na fu erioed yn rhan o gymdeithas ffydd. Dyma oedd y syniad creiddiol i hyrwyddo'r meddylfryd o "fyw'r Beibl".

'Trefnir y myfyrdodau'n fras fel eu bod yn berthnasol i dymhorau'r flwyddyn. Bydd ynddynt gyfeiriadau at ddigwyddiadau cenhadol eglwysi yng Nghymru a thu hwnt. Manteisiwyd ar weithgaredd eglwysi mewn ardaloedd a gwledydd eraill hefyd. Gobeithiwn y bydd syniadau o fewn y myfyrdodau hyn a fydd yn sbarduno ardaloedd eraill i ystyried sut i addasu prosiect ar gyfer eu hamgylchiadau hwy.'

Cyhoeddir gwers bob wythnos yn *Cenn@d* o ddechrau Hydref tan ddiwedd Gorffennaf 2024, a bydd yn cynnwys 5/6 o gwestiynau neu bwyntiau trafod ar gyfer grwpiau. Ond gellir hefyd ddefnyddio'r deunydd fel unigolion ar ein haelwydydd, a chael ein herio i feddwl sut gallwn ni fyw ein ffydd o ddydd i ddydd.

*Aled Davies*
*Cyngor Ysgolion Sul Cymru*

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 24 Medi, am 7:30yb a 16:30yp**
Cyfieithiadau – Elen Ifan yn trafod emynau sydd wedi'u cyfieithu

**Sul, 24 Medi, am 12yp**
Oedfa dan ofal Catrin Isaac Thomas, Maenclochog

# Samuel Roberts, 'S.R.', 1800–85

*Gweinidog (A), golygydd, diwygiwr cymdeithasol radicalaidd, heddychwr a dirwestwr.*

O blentyn y nefoedd, paham mae dy fron
Mor ofnus wrth weled gwyllt ymchwydd y don?
Mae'r dyfnder du tywyll yn rhuo, gwir yw;
Ond diogel dy fywyd, a'th Dad wrth y llyw.

*Samuel Roberts*



Yr oedd John Roberts, tad Samuel Roberts, yn weinidog ar eglwys Annibynnol Llanbrynmair ac yn y pentref hwnnw y ganwyd Samuel Roberts, 'yn blentyn eiddil', ar 6 Mawrth 1800, yn fab hynaf John a'i wraig Mary. Cawsant bump o blant i gyd, tri mab a dwy ferch. Cafodd addysg elfennol yn ysgol ei dad ac yna yn Amwythig, ac fe'i derbyniwyd yn gyflawn aelod o'r eglwys yn bymtheg oed. Rhoddodd ei fryd ar y weinidogaeth tua 1819 ac aeth i athrofa George Lewis yn Llanfyllin a'r Drenewydd i gael ei baratoi. Derbyniodd alwad i fod yn weinidog gyda'i dad ar yr Hen Gapel, ac fe'i hordeiniwyd ar 15 Awst 1827. Wedi marwolaeth ei dad derbyniodd ei frawd John Roberts alwad i gyd-weinidogaethu ag ef.

### Unol Daleithiau

Ym 1857 penderfynodd ymfudo i Tennessee yn yr Unol Daleithiau at ei frawd Gruffydd Roberts a oedd wedi symud yno flwyddyn ynghynt i chwilio am fywyd gwell. Hwyliodd o Lerpwl ar fwrdd y *Circassian,* un o longau y North Atlantic Steam Company. Yr oedd ganddo freuddwyd i sefydlu gwladfa Gymreig yn un o'r taleithiau, ond buan y sylweddolwyd eu bod nhw wedi cael eu twyllo gan y goruchwylwyr tir yno. Aeth pethau o ddrwg i waeth i Samuel Roberts yn ystod Rhyfel Cartref America, 1861–65, oherwydd ei safbwynt heddychol, ac fe'i henllibiwyd gan y wasg yng Nghymru ac yn *Y Drych* yn America. Dychwelodd i Gymru ar y *City of Paris* gan lanio yn Lerpwl ym mis Awst 1867, ac aeth i fyw gyda'i frawd John Roberts yng Nghonwy lle y bu hyd ddiwedd ei oes.

### Diwygiwr cymdeithasol

Bu Samuel Roberts yn eithriadol o weithgar yn pregethu, ysgrifennu a darlithio, a dros y blynyddoedd bu'n cystadlu mewn eisteddfodau gan ennill llu o wobrwyon, e.e. y wobr am draethawd yn dwyn y teitl 'Ardderchawgrwydd yr Iaith Gymraeg' yn eisteddfod Rhuthun 1824. Bu hefyd yn dadlau yn y wasg ar faterion pwysig y dydd fel y System Newydd, natur eglwys, addysg, y rheilffyrdd, a Brad y Llyfrau Gleision. Yr oedd yn heddychwr digymrodedd, a rhwng 1828 a 1834 darlithiodd lawer dros y Gymdeithas Heddwch. Cyhoeddodd lyfr emynau, sef *Casgliad o dros Ddwy Fil o Hymnau*, a chafwyd chwe argraffiad ohono mewn cyfnod o ugain mlynedd. Brwydrodd ac ysgrifennodd am ryddid a chyfiawnder mewn llawer maes; yr oedd yn erbyn caethwasanaeth, cam-drin merched, creulondeb i anifeiliaid, y Degwm, ac o blaid masnach rydd a dileu'r Deddfau Ŷd.

### Cronicl Bach

Ym 1843 sefydlodd y misolyn *Y Cronicl* a adwaenid, oherwydd ei blyg, fel 'Y Cronicl Bach', ac fe'i defnyddiodd fel cyfrwng poblogaidd i oleuo'r darllenwyr ynglŷn â materion gwleidyddol, amaethyddol, economaidd a chrefyddol. Yr oedd ganddo faich arbennig dros amaethwyr cyffredin a chaledi eu bywydau, yn enwedig pan oedd tirfeddianwyr yn codi rhenti annheg arnynt. Mae'n debygol mai erthyglau enwocaf Samuel Roberts oedd 'Ffarmwr Careful Cilhaul Uchaf' lle'r ymosodai ar landlordiaid barus. Golygodd *Y Cronicl* am bedair blynedd ar ddeg gan gyfrannu dros 1,500 o erthyglau iddo, a honnai fod dros filiwn o gopïau wedi eu gwerthu mewn deuddeng mlynedd.

Bu farw'n ddibriod ar 24 Medi 1885, a chladdwyd ef yng Nghonwy lle y gosodwyd yn ddiweddarach gofgolofn i'r tri brawd, Samuel Roberts, John Roberts a Gruffydd Roberts.

# Dod yn ôl

I lawer, erbyn hyn, mae gwyliau Awst yn y gorffennol pell, ac yn sicr mae'r Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan ymhlith yr hyn a fu, a diolch am a gafwyd. Ond mae dod yn ôl ar ddechrau Medi yn dod a phawb yn ôl i ryw fath o drefn.

I mi, fel i lawer, roedd dod yn ôl yn golygu ailgydio yng ngwasanaethau'r Sul o fewn yr ofalaeth; ailgydio mewn pwyllgorau ac ailgydio mewn pob math o gyfarfodydd, a dyna ddyddiadur rhywun yn llawn wedyn i'r eithaf. Mae hi'n ffasiynol mewn sawl ardal ac eglwys bellach i beidio cynnal dim yn ystod mis Awst (dwi ddim cweit yn deall hynny oherwydd mae fel dweud bod Duw ar ei wyliau), a dyma'r eglwysi hynny yn ailgydio ynddi. Mewn lleoedd eraill, trefniadau undebol a geir, sy'n llawn o esgusodion i aros adref! Ond dyna ni, mae eglwysi sy'n rhan o drefniant felly yn dod yn ôl i'w 'blychau' gwahanol ar y Sul. A dod yn ôl i'r 'cyfarwydd' a wnawn ni. Mae 'na rywbeth yn braf yn y cyfarwydd, ond eto ...

### Cynefino gormod

Ydan ni wedi cynefino gormod â'r 'cyfarwydd'? Oherwydd yr hyn a wna'r 'cyfarwydd' ydi'n gwneud ni'n bobl ddiddychymyg a diog braidd. Pan fydda i'n ymweld â chynulleidfaoedd y tu allan i fy ngofalaeth fy hun ar y Sul, y cwestiwn cyntaf fyddai'n ei ofyn ydi, 'beth ydi trefn yr oedfa?' neu, 'pa bryd mae'r cyhoeddiadau?' Ac os na ofynna i, mi fydd 'na rywun yn siŵr o'm hatgoffa i o'r drefn! Ac iawn, oherwydd ar wahoddiad yr ydan ni yn y lleoedd yma. Ond mae angen llawer mwy o ystwythder yn ein dulliau o addoli. Ystwythder sy'n parhau i gadw golwg ar urddas yr addoliad cofier, oherwydd mae peryg i ystwythder droi oedfa yn bopeth ond oedfa. A gwaeth na'r cyfan os tynnwn ni'r Gair a gweddi allan o addoliad. Cadw'r balans o gwmpas y Gair a gweddi ydi'r gamp, a chadw ystwythder ac urddas.

### Gwylia ar dy droed ...

Dwi'n gwybod mai neges i'r Iddew ydi honna ar gyfer yr addoliad yn y deml. Rhyw fath o 'cofia lle rwyt ti' – agwedd sydd wedi nodweddu llawer iawn gormod o Gymry erioed – Cymry sy'n meddwl bod adeiladau crefyddol yn sanctaidd. Gadewch i ni gofio hyn – Duw sy'n sanctaidd, nid y deml, ac mi greda i fod gwylio ar ein traed heddiw lawn cyn bwysiced wrth ddod allan o'r deml ag oedd hi i fynd i mewn iddi gan yr Iddew! Wrth ddathlu daioni Duw mewn gwasanaeth, ein braint ni ydi dod allan i'r 'llym herfeiddiol fyd' gan wisgo esgidiau addas tangnefedd, cymod a gwasanaeth wrth inni ddelio ag amgylchiadau sy'n llethol weithiau – amgylchiadau, efallai, nad ydyn nhw'n gyfarwydd i ni ond mai ein braint ni ydi bod yn eu canol. Ia, nid 'gwylia ar dy droed' wrth fynd i mewn ond gwylia ar dy droed wrth ddod allan!

**Iwan Llewelyn**

# Barn Annibynnol

## Mae angen gweithredu

Beth yw'r gweithgareddau defodol sydd yn allweddol i batrwm eich blwyddyn chi? Oes 'na leoedd, pobl neu weithgareddau sydd yn atalnodi pob tymor i chi, a hebddyn nhw byddai'ch blwyddyn yn teimlo'n anghyflawn?

### Greenbelt

I mi, a dreuliodd oes ym myd addysg, bu'r blynyddoedd yn gyson eu siâp o achos natur tymhorau ysgol. Ar ben hyn, roedd yr achlysuron Cristnogol mawr yn rhoi patrwm i'r flwyddyn – y Nadolig, y Pasg a'r Pentecost, a thymor y cynhaeaf. Wedyn roedd Eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol yn rhoi siâp i'r haf. Ar ben hynny, ers i Arfon Jones fy nghyflwyno i'r ŵyl am y tro cyntaf yn haf 1982, bu gŵyl Greenbelt yn gwbl ganolog i'm calendr. Mae hi wedi cymryd genedigaeth un o'm plant yn ystod y penwythnos i'm cadw o Greenbelt, a ddwywaith mewn dros 40 blynedd fe'm hataliwyd rhag mynd o achos cyfnodau mewn ysbyty. Pleser o'r mwyaf felly oedd dychwelyd i'r ŵyl eleni, gyda Greenbelt yn dathlu ei hanner canfed.

Mae'r ŵyl yn dipyn gwahanol i'r un a sefydlwyd yn 1974, a ddaeth allan o gartref diwylliannol y Jesus People. Erbyn hyn, 'Artistry, Activism, Belief' yw'r tri gair a ddefnyddir i geisio crisialu'r ŵyl, ac eleni fe gafwyd llond trol o'r tri.




### Gwnewch ddaioni

Pan oeddwn yn ifanc, y bandiau a'r unawdwyr oedd yn aros yn y cof. Erbyn hyn, yr hyn sydd yn aros yn y cof yw'r unigolion, eu gweithdai a'r grwpiau sydd yn creu Greenbelt. Mae'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig a'r Eglwys Fethodistaidd yn gefnogwyr o sylwedd, fel y mae Cymorth Cristnogol. Mae athroniaeth John Wesley yn rhedeg drwy'r cyfan, sef 'Gwnewch yr holl ddaioni ag sy'n bosib, trwy bob dull sy'n bosib, yn yr holl leoedd sy'n bosib, mor aml ag sy'n bosib, i gymaint o bobl ag y gallwch ac am mor hir ag sy'n bosib.'

Wedi crwydro'r maes o theatr i sesiwn farddoni, i lwyfannau acwstig i lwyfan mawr y bandiau mawr, ac o seminarau i weithdai, roedd 3 mewnbwn o bwys fydd yn aros gyda mi, ac yn galw arnaf i weithredu fel unigolyn, ac fel aelod o eglwys.

### Galwad i weithredu

Yn gyntaf, cyn troad y mileniwm roedd Gordon Brown yn Ganghellor y Trysorlys. Ef o holl wleidyddion y byd roddodd y momentwm gwleidyddol angenrheidiol i'r ymgyrch enfawr honno fu'n rhan o fywydau ein capeli Make Povery History a Jubilee 2000. Daeth i Greenbelt eleni i'n hannog i ymuno gyda'r gynghrair newydd sydd am roi tlodi ar ganol llwyfan yr etholiad nesaf. Soniodd Brown am y cynnydd mewn tlodi ym Mhrydain , ar yr un pryd ag y mae yn cael ei anwybyddu ar y llwyfan gwleidyddol. Mae'r Eglwys Fethodistaidd wedi cytuno i fod yn fudiad arweiniol i geisio creu cynghrair newydd traws-ffydd, traws bleidiol ac ar draws yr holl elusennau a'u cefnogwyr gyda'r bwriad o wthio mater tlodi i fod yn ganolog i frwydr yr etholiad nesaf. Ymbiliodd Brown ar dorf Greenbelt i fynd adref ac i gasglu pobl o ewyllys da i ymuno gyda'r momentwm, wrth i'r neges ddod yn gynyddol amlwg ar lawr gwlad.

### Apartheid

Yn ail, bues i mewn sawl cyfarfod yn gwrando ar siaradwyr o Balesteina yn trafod amodau byw eu cydwladwyr, a'u hymdrechion parhaus i amddiffyn cartrefi Palestinaidd rhag cael eu chwalu gan y fyddin Israelaidd neu eu llosgi gan setlwyr Iddewig. Mae hi'n stori hyll, ac mae'n anodd gweld unrhyw wahaniaeth rhwng eu sefyllfa hwythau a sefyllfa pobl dduon De Affrica adeg Apartheid. Bu eglwysi Cymru ar dân i weld diwedd ar Apartheid, ond tawel ydym ar y cyfan ar fater Apartheid Israel.

Rwyf eisoes yn gefnogwr i Rabbis for Human Rights, ond o hyn ymlaen bwriadaf fod yn gefnogwr brwd i'r Amos Trust, gan annog eraill i edrych ar yr hyn sydd yn mynd ymlaen yn y Dwyrain Canol ac ymroi i sefyll yn erbyn anghyfiawnderau difrifol. Ein bwriad yw ymweld â Gaza a'r Llain Orllewinol flwyddyn nesaf. Rwy'n gobeithio y caf gyfle i adrodd 'nôl o'n profiad.

### Sefyll a brwydro

Diolch byth am ŵyl Greenbelt. Roedd yn dridiau i lonni'r enaid ac i'm herio i weithredu yn bellach o blaid y gorthrymedig a'r tlawd. Mae'r ŵyl erbyn hyn yn cydio yn nychymyg pobl o bob oed, ac mi fyddai'n dda gweld presenoldeb Cymreig llawer cryfach mewn gŵyl global sydd ddim ymhell o'n stepen drws.


Eisin ar y gacen eleni oedd gweld fy hen arwr, Bruce Cockburn, yn canu ar y prynhawn Sadwrn, a braint oedd ei glywed yn canu'r geiriau 'Nothing worth having comes without some kind of fight, you got to kick at the darkness 'til it bleeds daylight'. Wrth sefyll a brwydro gyda'n gilydd cawn obeithio gweld y goleuni hwnnw.

Dyma rai gwefannau defnyddiol:

https://www.greenbelt.org.uk/
https://www.amostrust.org/ a
https://www.rhr.org.il/eng
https://gordonandsarahbrown.com/

**Geraint Rees**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru


*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Cymanfa Ganu Awyr Agored

Nos Sul, 3 Medi 3 cynhaliwyd Gofalaeth Glannau Ogwr Cymanfa Ganu awyr agored yng ngerddi castell Dwnrhefn yn Southerndown. Gerddi cyhoeddus sydd wedi mynd drwy gyfnod atgyweirio yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. A ninnau fel gofalaeth drwy gydol mis Medi yn canolbwyntio ar greadigaeth Duw, yr hinsawdd a'r amgylchedd roedd canu emynau o fawl yng ngardd Duw ei hun yn un o'r bendithion hyfrytaf wrth i'r haul dywynnu arnom. Dyma un o'n hymdrechion hefyd i fod yn dystiolaeth i'r Arglwydd Iesu Grist yn ein cymuned wrth i sawl ymwelydd oedd yn ymweld â'r ardd yn ymuno i wrando ar rhai o emynau mwyaf cyfoethog sydd gennym. Diolch i Iwan Guy am arwain y gymanfa.



# Derbyn aelod yn Hope-Siloh



Hyfrydwch oedd derbyn Marilyn Cullian yn aelod yn ein hoedfa gymun yn Hope-Siloh, Pontarddulais yn ddiweddar. Croeso adre i deulu Hope-Siloh Marilyn a phob bendith a dymuniad da i'r dyfodol.

Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Morgannwg

## Pererindod y gân

Trywydd cerddorol Sian Meinir



**Sul y Cyfundeb**

**Capel y Nant,**
**Clydach, SA6 5HB**

**Sul, 24 Medi, 2023**

I ddechrau am 10.30 y bore

Lluniaeth a chyfarfod i drafod materion y Cyfundeb i ddilyn

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*